DGC Digidol

Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'r Newid i'r Digidol

Papur Materion

Dyddiad Cyhoeddi **27 Gorffennaf**

Cynnwys

Adran	Tudalen
Cyflwyniad a Chrynodeb	4

Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ychydig o farn Ofcom sydd yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â darparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (DGC) yn yr oes ddigidol. Prif ddiben y ddogfen hon yw amlinellu'r meysydd pwysigrwydd ar gyfer darpariaeth DGC yn y dyfodol a nodi ble y bydd Ofcom yn gwneud gwaith pellach yn y flwyddyn ariannol hon[1]. Byddwn yn arbennig yn adolygu ein dull o weithio yn y meysydd canlynol:

- Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus (CGC) a'r cyfryngau newydd
- Dyfodol newyddion yn y byd digidol
- Dichonolrwydd ariannol ac effeithlonrwydd Channel 4

Er bod yr holl feysydd hyn wedi'u trafod yn yr Adolygiad DGC yn 2004-5, mae newidiadau yn y farchnad yn ystod y deunaw mis diwethaf wedi dod â nifer o'r materion y tu ôl i'r cwestiynau hyn i'r amlwg:

- Roedd rôl Fideo yn ôl y Galw (FoG) yn y farchnad ar gyfer dosbarthu cynnwys rhaglenni yn 2004/05 yn gymharol fach. Ond yn ddiweddar mae'r farchnad – gwasanaeth cyhoeddus a masnachol- wedi canolbwyntio ar botensial pellgyrhaeddol FoG wrth i wasanaethau band eang cyflymdra uchel ddatblygu'n ddramatig.
- Enwodd yr Adolygiad DGC newyddion fel y genre rhaglen mwyaf gwerthfawr ar deledu'r DU. Mae'r symud i ddigidol yn debygol o greu newid sylweddol pellach gan gynyddu dewis ond gydag oblygiadau ansicr eraill i berthynas gwylwyr gyda newyddion teledu
- Ers cyhoeddi Adolygiad DGC Cam 2 ym mis Medi 2004 (oedd yn edrych ar berfformiad darparwyr DGC allweddol), mae Channel 4 wedi mwynhau perfformiad cryf. Bydd asesiad o'r perfformiad diweddar hwn a'i gynaladwyedd yn yr oes ddigidol yn rhoi digon o amser cyn newid drosodd i ddiffinio rôl a gofynion cywir ar gyfer Channel 4 yn y byd digidol.

Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i gyfrannu at y drafodaeth am y pynciau mawr i'w hystyried gan Ofcom mewn perthynas â chyflwyniad DGC yn yr oes ddigidol ac i amlygu'r cysylltiadau a'r achosion cyffredin rhwng y pynciau hynny. Mae nifer yn cael eu gyrru gan newidiadau o'r un fath neu debyg yn y farchnad a bydd penderfyniadau ar bob un yn cael effaith ar ddatblygiad eraill.

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu cefndir defnyddiol trwy esbonio'r ystyriaethau hyn i randdeiliaid a bydd hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer cyhoeddi adroddiadau ym mhob maes arall yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol 2006/07.

[1] Gweler Cynllun Blynyddol 2006-7 Ofcom am fanylion o holl waith arfaethedig Ofcom ar gyfer y flwyddyn ariannol hon

Cyflwyniad a Chrynodeb

Cyd-destun

1.1 Mae blwyddyn a hanner wedi mynd heibio ers i Ofcom gyhoeddi trydydd cam ei hadolygiad ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (Adolygiad DGC a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2005), a geisiodd diffinio'r system teledu a bydau'n darparu allbwn er lles gwylwyr. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r farchnad wedi newid yn gyflym. Hefyd bu nifer o ddatblygiadau polisi pwysig, nid y lleiaf oedd cyhoeddi Papur Gwyn ar Adnewyddu Siarter y BBC.

1.2 Ond nid yw'r digwyddiadau hyn wedi cwblhau'r trafodaethau ar ddyfodol DGC. Mae nifer o gwestiynau allweddol am gyllido a chyflwyno DGC yn parhau heb eu hateb:

- Mae'r Papur Gwyn yn cadarnhau cefnogaeth y Llywodraeth am gynhaliaeth DGC nid yn unig gan y BBC - ond am **luosogrwydd darpariaeth DGC** yn y dyfodol. Ond mae ansicrwydd yn parhau am sut y caiff hwn ei gyflwyno. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i adolygiad yn ystod cyfnod nesaf y Siarter, fel mae'r effaith o newid i'r digidol yn dod i'r amlwg, o achos dros gyllido cyhoeddus – yn cynnwys arian ffi trwydded – i'w ddosbarthu yn ehangach y tu hwnt i'r BBC.

- Mae cwestiwn a godwyd gan Adolygiad DGC Ofcom – sef a fydd angen cyllido penodol ar gyfer darparwyr DGC y tu hwnt i'r BBC – felly yn parhau i fod angen ei drafod. Mater allweddol yma yw dichonolrwydd a model gweithredu ar gyfer **Channel 4** yn y dyfodol. Ymrwymodd Cam 3 o'r Adolygiad DGC Ofcom i gynnal adolygiad manylach o sefyllfa ariannol Channel 4 yn 2006/07 – croesawyd hyn gan y Llywodraeth yn y Papur Gwyn 2006/7

- Mae angen rhoi ystyriaeth bellach hefyd i rôl a chyllido i Gyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus (CGC) a gynigiwyd gan Adolygiad DGC Ofcom fel y darparydd cyntaf o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer syniadau a chreugarwch y cyfryngau newydd.

- Mae angen talu sylw hefyd i feysydd allweddol rhaglennu DGC. Yn arbennig, enwodd yr Adolygiad DGC newyddion fel y genre rhaglen mwyaf gwerthfawr ar deledu DU. Ond mae cwestiynau pwysig yn parhau am **ddyfodol newyddion.** Er bod mwy o newyddion teledu ar gael nag erioed o'r blaen mae darpariaeth yn anwastad ac mae pryderon ynglŷn â newyddion rhanbarthol ac oblygiadau newid i'r digidol ar ddyfodol newyddion yn fwy cyffredinol.

1.3 Bydd Ofcom yn cynnal gwaith ychwanegol ar y materion hyn yn 2006/07. Bydd y gwaith yn cynnwys adolygiad ariannol o Channel 4; datblygu dewisiadau ar gyfer sut y gall DGC weithredu yn ymarferol ac adolygiad o'r rhagolygon ar gyfer darpariaeth a defnydd newyddion yn yr oes ddigidol. Bydd Ofcom hefyd yn dechrau ar waith i fonitro darpariaeth DGC yn erbyn y r hyn a ddynodwyd yn yr Adolygiad DGC

1.4 Diben y ddogfen hon yw cyfrannu at y drafodaeth ar ddyfodol darpariaeth DGC. Bydd y drafodaeth yn parhau dros y blynyddoedd i ddod, oherwydd mae'n amhosibl rhagweld nifer o'r datblygiadau allweddol yn y farchnad yn derfynol.

Mae Ofcom hefyd yn rhwymedig i gwblhau ail Adolygiad DGC erbyn 2009/10. Yr adeg hynny bydd newid i'r digidol ar y gweill a bydd esblygiad y farchnad ddarlledu yn gliriach. Bydd y gwaith pellach ar Channel 4 a DGC yn bwydo'i mewn i'r adolygiad DGC nesaf a bydd yn cyfrannu at adolygiad y Llywodraeth o'r achos dros gyllid cyhoeddus ehangach i DGC. Ym Mhennod 11 o Bapur Gwyn y Llywodraeth ymrwymodd y Llywodraeth i adolygu'r achos dros gyllido cyhoeddus "i'w ddosbarthu yn ehangach y tu hwnt i'r BBC". Cynhelir yr adolygiad hwn yn ystod cyfnod y ffi trwydded h.y. cyn 2016 ond mae'n gadael y posibilrwydd y gallai hyn fod yn gynharach yn agored, gan nodi dadl Ofcom am adolygiad cyn 2010.

Crynodeb o'r ddogfen hon

1.5 Mae'r ddogfen hon yn ystyried oblygiadau newid yn y farchnad i'r system DGC ers gorffen yr Adolygiad DGC gan ganolbwyntio ar rolau pob un o ddarparwyr DGC y DU a'u cyllido. Yn ychwanegol at asesu newid yn y farchnad, rydym hefyd yn amlinellu gwaith wedi'i gynllunio ar DGC i'w wneud gan Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Esblygiad y system DGC

1.6 Mae'r system DGC wedi esblygu yn y DU dros 70 mlynedd – derbyniodd y BBC ei Siarter Brenhinol cyntaf ym 1927 a dechreuodd darlledu teledu rheolaidd ym 1936. Cyflwynwyd cystadleuaeth yn raddol i'r system: lansiwyd teledu annibynnol (ITV) ym 1955, aeth BBC2 ar yr awyr ym 1964; daeth Channel 4 i fodolaeth ym 1982 a Channel 5 (Five yn ddiweddarach) ym 1997.

1.7 Mae'r system hon wedi gweithredu ar sail lluosogrwydd cynyddol darparwyr DGC (yn cael ei gyfeirio ati fel lluosogrwydd darpariaeth DGC) – a'r dybiaeth bod y lluosogrwydd hwn yn creu cystadleuaeth am ansawdd yn narpariaeth DGC. Mae gwylwyr y DU yn elwa o ddarpariaeth gan bum prif ddarlledwyr teledu gwasanaeth cyhoeddus - BBC, Channel 3, Channel 4, Five ac S4C (a Teletext). Hefyd mae nifer o ddarlledwyr eraill sydd yn cyfrannu at ddibenion a nodweddion DGC mewn amrywiol ffyrdd.

1.8 Ond, nododd yr Adolygiad DGC bod newidiadau yn y farchnad yn bygwth y system DGC sefydledig – gall y symudiad o analog i ddigidol a theledu aml sianeli olygu nad yw bellach yn realistig i ddisgwyl i ddarlledwyr masnachol gyflwyno rhwymedigaethau sylweddol DGC oherwydd eu sylfaen cynulleidfa ddarniog. Oherwydd hynny mae darpariaeth DGC gan gyrff a gyllidir yn fasnachol dan fygythiad potensial. Hwn oedd un o gasgliadau pwysicaf ac ar y pryd yr un mwyaf dadleuol yn yr Adolygiad DGC.

Newidiadau yn y farchnad

1.9 Mae'r papur hwn yn dadansoddi sut y mae'r farchnad wedi symud ymlaen ers yr Adolygiad DGC ym mis Chwefror 2005. Rydym wedi darganfod fod rhai ffactorau wedi datblygu'n llai cyflym nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Er enghraifft, mae'r nifer sydd wedi derbyn ac effaith recordwyr fideo personol wedi bod yn arafach nag a feddyliodd llawer; mae Channel 4 wedi parhau i berfformio'n dda ac mae'r farchnad hysbysebu yn gyffredinol wedi dal ei thir er bod pryderon difrifol yn bodoli ar hyn o bryd.

1.10 Ond mae rhai o'r bygythiadau i gyllido a darpariaeth gonfensiynol DGC wedi cyflymu. Mae'r nifer yn manteisio ar ddigidol wedi bod y tu hwnt i'r rhagolygon

yn yr Adolygiad DGC. Hefyd ni thalodd dadansoddiad Ofcom ar y pryd ddigon o sylw i ddyfodol cynnwys a dosbarthu'r cyfryngau newydd - pwnc sydd yn hynod o arwyddocaol nawr i'r diwydiant. O fewn misoedd mae DVB-H, IPTV ac W-LANs wedi symud o fyd jargon technegol i gartrefi pobl gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol i ddefnydd a hefyd creu cynnwys fideo. Mae'r newidiadau hyn yn y farchnad wedi creu cyfleoedd newydd i rai gwasanaethau e.e. gwasanaethau teledu lleol, ond maent wedi dechrau effeithio ar anogaethau darparwyr masnachol i'r system DGC i gyflwyno lefelau cyson uchel o DGC.

1.11 Mae datblygiadau mewn polisi sbectrwm yn rhan arall pwysig o'r darlun newidiol hwn. Yn y gorffennol, mae sbectrwm weithiau wedi ei ddarparu am ddim gan y Llywodraeth ac/neu'r rheoleiddiwr i DGC neilltuol. Mae'r 'rhoi' hwn wedi bod yn gyfnewid am ymrwymiad i ddiwallu rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus. Ar ei lefel mwyaf cyffredinol mae polisi sbectrwm wedi ei ddefnyddio fel modd o ddarparu grantiau i gefnogi DGC – ac felly lleihau'r angen am ddulliau eraill o gyllido. Mae'n gynyddol amlwg bod angen newid y model hwn. Mae sbectrwm yn adnawdd gwerthfawr y gellir ei ddefnyddio i gefnogi sawl math o gyfathrebu diwifr. Yn aml mae technolegau a chymwysiadau newydd yn wynebu oedi hir wrth gael mynediad i sbectrwm er mwyn mynd i mewn i farchnadoedd neu ehangu gwasanaethau. Mae'n gynyddol bwysig bod y ffordd y mae sbectrwm yn cael ei reoli yn creu anogaethau cryf i'r defnydd mwyaf effeithiol o sbectrwm – fel bod y defnyddwyr, gwasanaethau a thechnolegau mwyaf gwerthfawr yn cael mynediad yn gyflym i sbectrwm..

1.12 Ar 27 Gorffennaf cyhoeddodd Ofcom ddogfen yn cynnig y dylai darlledwyr, o 2014, dalu am ddefnyddio sbectrwm hefyd ar sail debyg i ddefnyddwyr eraill o sbectrwm gwerthfawr. Bydd y newid hwn yn rhoi anogaethau llawer cryfach i ddarlledwyr i adolygu eu daliadau sbectrwm hir dymor - a dylai hyn fod o fudd sylweddol i gymdeithas. Bydd hefyd yn cryfhau ymhellach yr angen i ystyried atebion eraill yn nhermau cefnogaeth ariannol i DGC, ffurf sefydliadol y system DGC a chyflwyniad genre DGC allweddol.

Ymateb Ofcom

1.13 Mae Ofcom yn credu y dylai DGC yn y DU esblygu gyda graen y tueddiadau hyn yn hytrach na cheisio lleihau eu heffaith yn unig ar y system gyfredol. Mae angen i ni ofyn sut y gellir cynnal a chryfhau ansawdd DGC yn y byd newidiol hwn. Yn ein barn ni, mae cyflymdra newid yn golygu bod angen i ni ail ddychmygu cyflwyniad DGC i fyd ar ôl newid drosodd - tra bod y dibenion cyhoeddus craidd yn parhau, efallai y bydd rhaid i ddulliau cyflwyno a fframwaith sefydliadol newid. O ganlyniad, mae angen i ni ddiffinio model DGC priodol ar gyfer y dyfodol, nid ar gyfer y byd fel y mae heddiw - neu fel ag y bu yn y gorffennol.

1.14 Mae'r ddogfen hon yn trafod nifer o faterion sydd yn dilyn o'r dadansoddiad hwn:

- **Ffurfiau cyfryngau newydd o ddarpariaeth DGC**: Dros 70 mlynedd o hanes DGC yn y DU mae lansio gwasanaethau a chyrff newydd ar adegau allweddol wedi esgor ar chwistrellu creadigrwydd ac egni mewn DGC ac wedi cryfhau'r system hefyd yn gyffredinol. Ac felly yn yr oes ddigidol gall sefydliad newydd ddarparu ffynhonnell newydd o arloesi a hefyd lluosogrwydd i'r byd newydd yn dilyn newid drosodd. Roedd yr Adolygiad

DGC yn dadlau y gall fod angen sefydlu darparydd DGC newydd ar gyfer darpariaeth luosog DGC yn y dyfodol- sef Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus. Rhoddwyd ystyriaeth gychwynnol i ffurf CGC yn yr Adolygiad DGC. Eleni bwriadwn ddatblygu mwy o gynigion cadarn ynglŷn â beth y gallai CGC ei wneud. Ar y cyd gyda grŵp bychan o arbenigwyr oddi mewn i'r diwydiant cyfryngau newydd mae gwaith ar y gweill i ddatblygu gweledigaeth i CGC fel endid wedi'i wreiddio yn syniadau, creadigrwydd ac ethos y cyfryngau newydd (er na fydd hyn yn ei atal rhag gwneud defnydd o ddosbarthu darlledu lle mae'n briodol). Nododd ein Cynllun Blynyddol ymrwymiad i gyhoeddi allbwn ein gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- **Dyfodol newyddion**: beth yw'r rhagolygon ar gyfer newyddion teledu ar ôl y newid i'r digidol? Mae pob darparydd DGC yn rhwymedig i gyflwyno newyddion fel rhan o'u gwasanaethau. Ond mae dirywiad y compact DGC hanesyddol yn gwneud gorfodi'r rhwymedigaethau hyn yn fwy ansicr ar ôl newid i'r digidol. Hefyd gall fod newidiadau i'r amgylchedd masnachol i ddarparwyr nad ydynt yn DGC sydd ag oblygiadau i ddarparu allbwn newyddion. Yn erbyn y cefndir hwn bydd Ofcom yn cynnal prosiect i asesu'r rhagolygon ar gyfer newyddion teledu yng nghyd-destun ehangach mynediad ,i a defnydd newyddion, yn y cyfnod ar ôl newid drosodd. Bydd yn gofyn pa wasanaethau a ddarperir - ar sianeli DGC a sianeli heb fod yn DGC. Bydd yn ystyried sut mae'r farchnad yn debygol o ddatblygu a beth yw'r oblygiadau ar gyfer sicrhau lluosogrwydd darpariaeth newyddion ac/neu gynnal ansawdd y ddarpariaeth.

- **Dyfodol Channel 4**: Mae Channel 4 wedi chwarae rôl allweddol mewn darparu lluosogrwydd yn y system DGC dros y chwarter canrif ddiwethaf, ond mae amrediad o gwestiynau'n bodoli am gynaladwyedd ei model ar gyfer cyllido DGC yn y dyfodol. Felly bydd Ofcom eleni yn cynnal adolygiad ariannol llawn o Channel 4. Bydd adolygiad Ofcom yn ystyried perfformiad ariannol a gweithrediadol Channel 4 - nawr ac yn y dyfodol; ei gyflawniad parhaus o'i gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus, a fydd angen ymyrraeth. Wrth wneud hynny bydd angen i Ofcom edrych ar berfformiad ariannol a gweithrediadol Channel 4 yn fanwl er mwyn asesu rhagolygon y cwmni yn y dyfodol yn yr oes ddigidol.

1.15 Mae materion eraill pwysig i'w hystyried, yn enwedig y risgiau potensial i'r celfyddydau a rhaglennu plant gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol a bydd angen i'r rhain hefyd fod yn rhan o'r ddadl. Ond y tri maes a nodwyd uchod fydd ein ffocws ar hyn o bryd, ochr wrth ochr â monitro cyflwr cyffredinol DGC.

1.16 Cyn mynd i'r afael yn benodol â'r materion neilltuol hyn yn adrannau 4-7, nod y ddwy adran nesaf yw darparu cyd-destun trwy ailedrych ar rai o themâu Adolygiad DGC 2005 a mynd i'r afael â sut y mae'r farchnad wedi newid yn y cyfnod byr ers cwblhau'r Adolygiad.